**Protocol ar gyfer Arholiadau Viva a Llafar Electronig**

Mae’r Brifysgol wedi sefydlu protocol ar gyfer cynnal arholiadau viva drwy ddulliau electronig. Dylai pob arholiad viva naill ai gael ei gynnal o bell neu gael ei ohirio tan ddyddiad diweddarach, nes clywir yn wahanol. Os cynhelir arholiad viva o bell, dylai’r cadeirydd sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn hapus i gario ymlaen o bell ac a oes angen unrhyw drefniadau cymorth.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y polisi arferol ynghylch gwneud cais am ganiatâd i gynnal yr arholiad viva, a lle mae’r Brifysgol fel arfer yn gofyn am gymeradwyaeth arbennig, yn cael ei hepgor.

Awgrym y Brifysgol yw symud ymlaen drwy systemau electronig gyda phob unigolyn. Dewis y Brifysgol fyddai defnyddio Microsoft Teams, ond gellir defnyddio systemau meddalwedd eraill os bydd angen.

Mae’n arfer da i’r cadeirydd ganiatáu ac annog i’r staff a’r myfyrwyr brofi eu hoffer a’u meddalwedd (cyn y cyfarfod), er mwyn lleihau’r cyfle o gael problemau technegol ar y diwrnod. Wrth brofi offer a meddalwedd, dylid cadarnhau bod cysylltiad sefydlog priodol ar gael, yn ogystal â rhoi prawf ar gamerâu a microffonau. Bydd cyfarfod Teams yn gofyn am o leiaf 500kbps wrth lawrlwytho a lanlwytho ar gyfer galwad fideo o’r ansawdd lleiaf.

Bydd y cadeirydd yn sicrhau trefniadau priodol rhag ofn y ceir problemau cysylltu, megis cadarnhau llinell ffôn uniongyrchol y bydd modd ei ddefnyddio i gysylltu â phob cyfranogwr er mwyn cadarnhau neu newid trefniadau. Nid yw llinell ffôn yn ddewis amgen derbyniol yn lle cysylltiad fideo.

Ar ddechrau’r arholiad viva dylai’r cadeirydd gadarnhau nad oes unrhyw un arall yn yr ystafell gyda’r myfyriwr, oni chytunwyd fel arall yn flaenorol.

Dylai’r cadeirydd gadarnhau pwy yw’r holl gyfranogwyr.

Dylai’r cadeirydd drefnu bod yr arholiad viva yn cael ei recordio. Dylid gofyn i bob gyfranogwr gytuno drwy e-bost cyn yr arholiad viva, neu ar lafar ar y dechrau.

Gofynnir i’r myfyriwr ddatgysylltu o’r cyfarfod pan fydd y panel yn cynnal ei drafodaeth breifat. Wedyn dylid gofyn i’r myfyriwr ailymuno â’r cyfarfod. Dylai’r cadeirydd roi gwybod i’r myfyriwr sut y cysylltir ag ef/hi pan fydd yn amser iddo/iddi ddychwelyd.

Fel arfer ni ddylai trafodaeth y panel gael ei recordio.

Bydd y drafodaeth a recordiwyd ar gael i’r ymgeisydd os bydd yn gwneud cais amdani.

Os bydd y cysylltiad rhwng y lleoliadau’n profi anawsterau yn ystod yr arholiad viva, atelir yr arholiad viva dros dro er mwyn ailsefydlu cysylltiad priodol. Os na ddeuir o hyd i drefniant priodol o fewn awr i atal yr arholiad viva dros dro, aildrefnir yr arholiad viva ar gyfer dyddiad yn y dyfodol.

Bydd y cadeirydd yn cynnwys cofnod o unrhyw anawsterau a gafwyd yn ei adroddiad.

Os nad yw myfyriwr yn dymuno mynd ymlaen â’r arholiad viva yn electronig neu i’r arholiad viva gael ei recordio, bydd yr arholiad viva yn cael ei ohirio tan i’r arholiad viva allu parhau gyda'r cyfranogwyr yn bresennol eu hunain. Bydd hyn yn golygu na fydd modd gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch dilyniant a dyfarniadau ar gyfer y myfyriwr hwnnw, tan i’r arholiad viva gael ei gynnal.

Dylai’r Partner gadw ffeiliau a gafodd eu recordio am gyfnod o chwe mis.